# Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio

## Cymwysterau Cymru

**Pecyn Ymgeisydd**
Dyddiad Cau: Dydd Sul 15 Mehefin 2025
Cyfweliadau: Dydd Iau 3 ydd Gorffennaf yng Nghasnewydd



acorn by SYNERGIE

# Gwybodaeth Allweddol

**Lleoliad**
Casnewydd gyda dull hybrid.

Gyda gwaith llawn amser, mae hyn fel arfer yn golygu 40% o'r wythnos waith yn y swyddfa.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd angen i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd weithio o'r swyddfa yn fwy rheolaidd ar ddechrau'r penodiad i feithrin perthnasoedd gwaith a gwybodaeth.

**Contract**
Parhaol, llawn amser (37 awr yr wythnos)

Gellir trafod ceisiadau am batrymau gwaith eraill, gan gynnwys rhan-amser, rhannu swydd a secondiadau, yn y cyfweliad

**Cyflog a Buddion:**
£85,000 - £97,000 y flwyddyn.

Aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, y mae'r cyflogwr yn cyfrannu 28.97% ato ar hyn o bryd. 30 diwrnod o wyliau blynyddol a buddion cystadleuol eraill.

Gellid ystyried cymorth adleoli

**Adrodd i:**
Prif Weithredwr



© Acorn by Synergie

# Croeso
# Neges gan y Prif Weithredwr

Diolch am eich diddordeb yn rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio yn Cymwysterau Cymru. Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n tîm a chyfrannu at ein cenhadaeth o sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cynnal hyder y cyhoedd.

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, mae Cymwysterau Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y sector addysg. Mae ein gwaith yn cynnwys rheoleiddio cyrff dyfarnu, goruchwylio'r system gymwysterau, a gweithredu diwygiadau i sicrhau bod cymwysterau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn werthfawr. Bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio ar flaen y gad yn yr ymdrechion hyn, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol i'n cyfarwyddiaeth Rheoleiddio.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle unigryw i wneud effaith sylweddol ar y dirwedd addysg yng Nghymru. Byddwch yn arwain tîm ymroddedig sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau rheoleiddio, monitro cyrff dyfarnu, a sicrhau effeithiolrwydd y system gymwysterau. Bydd eich arweinyddiaeth yn hanfodol wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol â chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid allweddol eraill, yng Nghymru ac ar draws y DU.

Yn Cymwysterau Cymru, rydym yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae ein cyflogeion yn gweithio ar sail hybrid, gyda chydbwysedd rhwng gweithio gartref a swyddfa. Rydym yn cynnig cyflog cystadleuol, gwyliau blynyddol hael, ac aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rydym yn gyffrous i dderbyn ceisiadau gan weithwyr proffesiynol ymroddedig sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddysgwyr yng Nghymru. Os ydych chi'n angerddol am addysg ac yn meddu ar y sgiliau a'r profiad rydym yn chwilio amdanynt, rydym yn eich annog i wneud cais.

Diolch unwaith eto am eich diddordeb yn y rôl bwysig hon. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais a dysgu rhagor am sut y gallwch gyfrannu at lwyddiant Cymwysterau Cymru.



© Acorn by Synergie

# Cefndir



**Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau'n effeithiol wrth ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac am hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y rhain.**

Mae gan Cymwysterau Cymru Gadeirydd a Bwrdd a benodwyd yn gyhoeddus sy'n atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru a'i rhwymedigaethau i Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cytuno ar gyfeiriad strategol a llywodraethiant y sefydliad ac mae'r tîm Gweithredol (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, tri Chyfarwyddwr Gweithredol, a Chyfarwyddwr) yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau strategol a gweithredol.

**Mae Cymwysterau Cymru wedi'i drefnu'n bedair cyfarwyddiaeth, sy'n cynnwys:**

- Polisi a Diwygio Cymwysterau – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Diwygio Cymwysterau
- Rheoleiddio – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio
- Adnoddau Corfforaethol – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol
- Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid – dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid.

Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb ar y cyd am arweinyddiaeth effeithiol Cymwysterau Cymru, am ddiffinio cyfeiriad a blaenoriaethau strategol, rheoli mecanweithiau rheoli a sicrhau stiwardiaeth gyffredinol a rheoli perfformiad y sefydliad.

Byddan nhw'n cynghori aelodau'r Bwrdd ar ddatblygiad strategol ac felly bydd gofyn iddyn nhw ddeall a rhagweld datblygiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnegol y mae'n gweithredu ynddo. Bydd gofyn iddyn nhw hefyd feithrin diwylliant o welliant parhaus a bydd disgwyl iddyn nhw weithredu fel esiamplau i weddill y sefydliad.

Dilynwch y ddolen hon i ddarllen ein hadroddiad blynyddol diweddaraf.

© Acorn by Synergie

# Gweithio i Cymwysterau Cymru

Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ein gweithwyr o'r diwrnod cyntaf. Yn ogystal â chyflogau cystadleuol, rydyn ni'n cynnig 30 diwrnod o wyliau blynyddol, trefniadau gweithio hyblyg ac aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rydyn ni'n cyflogi ac yn gwobrwyo'r dalent orau, waeth beth fo'u rhywedd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran. A dyna sut rydyn ni'n chwilio am dalent y dyfodol hefyd, gan recriwtio o'r gronfa ehangaf sydd ar gael.

Mae ein dull o recriwtio a dewis yn deg, yn agored ac yn seiliedig yn gyfan gwbl ar deilyngdod, ac rydyn ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Further Benefits include:**

- Rydyn ni'n cynnig gweithio hybrid i'n holl weithwyr, gan ganiatáu iddyn nhw gydbwyso eu hwythnos waith rhwng y cartref a'r swyddfa.
- Mae ein gweithwyr llawn amser yn derbyn 30 diwrnod o wyliau blynyddol, wyth gŵyl banc a hyd at dri diwrnod ychwanegol ar gyfer cau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
- Mae gan weithwyr hawl i ddod yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.
- Rydyn ni'n ceisio cefnogi ein gweithwyr drwy gynnig absenoldeb a chyflog mamolaeth, tadolaeth, rhannu absenoldeb rhiant a mabwysiadu hael.

Er mwyn cefnogi pob agwedd ar les, mae ein gweithwyr yn gallu manteisio ar y canlynol:

- Rhaglen cymorth i weithwyr - sy'n cynnig gwasanaethau fel cefnogaeth emosiynol, cwnsela a mynediad at gynghorwyr arbenigol
- Darpariaeth gofal llygaid - sy'n caniatáu i weithwyr gael prawf llygaid am ddim ynghyd â dewis cyfyngedig o fframiau
- Iechyd galwedigaethol - sy'n rhoi cyngor ar faterion cyn lleoli/ffitrwydd ar gyfer gweithio, cymorth dychwelyd i'r gwaith, neu gyngor pan fo gan weithwyr bryderon iechyd eraill.

- Mae ein gweithwyr yn gymwys i ymuno â CSSC - sefydliad aelodaeth ar gyfer gweision sifil a gweithwyr yn y sector cyhoeddus - sy'n darparu ystod enfawr o gyfleoedd chwaraeon, hamdden, iechyd a manwerthu i'w aelodau.
- Er mwyn dangos ein hymrwymiad i statws proffesiynol ein gweithwyr, rydyn ni'n talu eu tanysgrifiadau proffesiynol os ydyn nhw'n berthnasol i'w rôl.

Dilynwch y ddolen hon i ddysgu mwy am weithio i Cymwysterau Cymru




© Acorn by Synergie

# Pwrpas y Swydd



**Gan adrodd i'r Prif Weithredwr, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio yn rhoi arweinyddiaeth strategol i'r gyfarwyddiaeth Rheoleiddio.**

Mae'r gyfarwyddiaeth Rheoleiddio yn cynnwys pedwar tîm:

- Cymeradwyo a Dynodi
- Monitro Cymwysterau Galwedigaethol a Chydymffurfiaeth Cyrff Dyfarnu
- Monitro a Safonau Cymwysterau Cyffredinol
- Polisi Rheoleiddiol

Mae'r gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisi rheoleiddio, ac am adolygu'n barhaus effeithiolrwydd cyrff dyfarnu yn eu gwaith i ddarparu cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gyfrifol am arwain a sicrhau rheolaeth briodol o waith y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio, ac mae'n atebol am effeithiolrwydd gweithredol y gyfarwyddiaeth. Mae deiliad y swydd yn atebol am gyflawni'n weithredol amrywiaeth o ddyletswyddau a gweithgareddau rheoleiddio allweddol ac, o fewn y cynllun dirprwyo, mae'n gyfrifol am wneud amrywiaeth o benderfyniadau gorfodi wrth arfer pwerau Cymwysterau Cymru.

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu fframwaith a dull rheoleiddio effeithiol sy'n creu perthnasoedd cadarnhaol a phriodol gyda'r cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu rheoleiddio. Y rôl hefyd yw'r prif bwynt arweinyddiaeth mewn perthynas â chydweithredu a chydlynu gweithredol ar draws cyd-reoleiddwyr cymwysterau - gan sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn cael eu cynnal.

© Acorn by Synergie

# Prif Ddyletswyddau

Ar y cyd â'r Tîm Gweithredol, datblygu'r cynlluniau gweithredol a'r cynlluniau busnes blynyddol i lywio gweithgareddau Cymwysterau Cymru.

Bod yn atebol am agweddau ar gynlluniau corfforaethol ac adrodd, e.e. y cyfrifon blynyddol, yr adroddiad blynyddol, y cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion

Datblygu ac yna bod yn gyfrifol am gyllideb flynyddol y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio – gan sicrhau bod yr holl wariant yn ddarbodus ac yn cydymffurfio â disgwyliadau cyrff cyhoeddus.

Arwain, rheoli a bod yn atebol am y gyfarwyddiaeth gan gynnwys ei chyfeiriad strategol, nodau ac amcanion a pherfformiad.

Meithrin diwylliant o welliant parhaus, sy'n gyson â gwerthoedd Cymwysterau Cymru a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hyn y byddan nhw'n ei gyfrannu'n bersonol at lwyddiant y sefydliad ac yn cael cyfleoedd datblygu.

Diogelu enw da Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr uchel ei barch sy'n gallu nodi a chywiro arferion nad ydyn nhw'n cydymffurfio neu arferion gwael gan gyrff dyfarnu.

Gweithredu model rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg sy'n cydnabod cyd-destun risgiau i hyder y cyhoedd yn ogystal ag i gyflwyno cymwysterau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu a gweithredu dulliau o fonitro ac adolygu cymwysterau a chyrff dyfarnu.

Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith perthnasol â chyrff allweddol yn y sector addysg ac yn arbennig adeiladu a chryfhau perthnasoedd da â rheoleiddwyr cymwysterau yn y DU.

Mynychu a siarad mewn digwyddiadau i gynrychioli Cymwysterau Cymru.

Sicrhau bod datblygiad polisi, cydnabod cyrff dyfarnu, cymeradwyo a dynodi cymwysterau, gosod a chynnal safonau cymwysterau a phrosesau monitro yn cael eu cynnal fel y gellir ystyried bod cyrff dyfarnu a chymwysterau cydnabyddedig yn effeithiol.

Adolygu prosesau gweithredol i sicrhau eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd – gan weithredu newid lle bo angen.

Sicrhau bod egwyddorion rheoleiddio da yn cael eu cynnal; yn benodol, bod Cymwysterau Cymru yn gymesur, yn atebol, yn gyson, yn dryloyw ac yn targedu wrth ymgymryd â gweithgareddau rheoleiddio.

Datblygu, gweithredu a chynnal polisi gorfodi a sancsiynau cytunedig fel bod pob cymhwyster yn y system yn bodloni gofynion a bod cyrff dyfarnu yn awyddus i fodloni gofynion.

Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynllunio parhad busnes fel y mae'n ymwneud â diogelwch y system gymwysterau yng Nghymru.

Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith newidiadau i'r system gymwysterau yng Nghymru a datblygiadau cyfreithiol ac anghyfreithiol ym maes rheoleiddio ac addysg gan sicrhau bod y sefydliad yn newid pan fo angen.

Cefnogi aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau yn uniongyrchol i gyflawni eu rolau yn unigol ac ar y cyd a chyflawni llywodraethu corfforaethol da. Cadeirio strwythurau llywodraethu mewnol fel y bo'n briodol.

Sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n iawn, bod cofnodion ariannol yn cael eu cadw'n gywir, bod uniondeb yn cael ei gynnal a bod unrhyw arian sy'n cael ei wario yn rhoi gwerth am arian.

Gweithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, pan fo hynny'n berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'r radd.

© Acorn by Synergie

# Manyleb y Person

Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o brofiad yn eu datganiad ysgrifenedig a'u cais yn ogystal â sut maen nhw wedi defnyddio eu gwybodaeth ac arddangos eu sgiliau yn eu rolau presennol neu flaenorol.

## Cymwysterau

**Hanfodol**

Lefel gradd neu gyfwerth.

**Dymunol**

Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar lefel sy'n berthnasol i'r rôl hon.

## Profiad

**Hanfodol**

- Hanes o arweinyddiaeth a rheolaeth strategol effeithiol sy'n dangos y gallu i adeiladu, datblygu a rheoli timau o weithwyr proffesiynol.
- Tystiolaeth o brofiad helaeth mewn cyd-destun rheoleiddio neu gymwysterau.
- Profiad o feithrin dull strwythuredig ac effeithiol o reoli rhaglenni a phrosiectau.

**Dymunol**

Profiad o wneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus mewn cyd-destun rheoleiddio.

## Gwybodaeth

**Hanfodol**

- Gwybodaeth drylwyr o egwyddorion rheoleiddio a sut i gymhwyso'r rhain, a rheoli baich rheoleiddiol.
- Gwybodaeth drylwyr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â systemau rheoleiddiol.
- Dealltwriaeth dda o systemau cymwysterau'r DU.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o systemau cymwysterau ac asesu rhyngwladol.
- Gwybodaeth drylwyr o egwyddorion llunio a gweithredu asesiadau.

## Sgiliau

**Hanfodol**

- Sgiliau arwain, gyda gallu profedig i arwain ac ysgogi eu cyfarwyddiaeth i gyflawni. Dirprwyo’r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gweithredol i'r sawl maen nhw’n eu rheoli’n uniongyrchol a'u cefnogi wrth reoli ac arwain eu timau.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i gynnig cyngor ysgrifenedig a llafar. Sgiliau diplomyddiaeth a'r gallu i arwain a dylanwadu mewn ffordd soffistigedig.
- Y gallu i ysbrydoli ac ysgogi gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys trwy gyfnodau o newid ac arloesi, tra'n meithrin dulliau cyson ac atebol o weithio.
- Meddyliwr dadansoddol medrus gyda'r gallu i ddosbarthu a deall materion cymhleth, rheoli safbwyntiau sy’n gwrthdaro a meithrin hyder ac awdurdod i ddylanwadu ar staff uwch a rhanddeiliaid.
- Y gallu i ddatblygu atebion i broblemau cymhleth.
- Gwybodaeth dda o reoli rhaglenni a phrosiectau a phrofiad o reoli prosiectau a’u cyflawni yn ôl gofynion costau, amser a safonau ansawdd ac i reoli rhagolygon ariannol.
- Yn wydn iawn ac yn gallu gweithio'n gyflym ac aros yn ddigynnwrf o dan bwysau.

**Dymunol**

Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cynnig cymorth i ddatblygu sgiliau presennol neu i ddysgu Cymraeg.

© Acorn by Synergie

# Proses Cais



Mae Cymwysterau Cymru wedi cyflogi Acorn by Synergie i gefnogi a rheoli'r cylch recriwtio hon

I ddysgu rhagor, cysylltwch â

**Luke Robért**

luke.robert@acornpeople.com
07551 353 260

## Os hoffech wneud cais, cyflwynwch y canlynol i'w hystyried cyn y dyddiad cau ar 15 Mehefin 2025:

- CV wedi'i ddiweddaru
- Datganiad ategol (uchafswm o 2,000 o eiriau) yn manylu ar eich cymhelliant dros wneud cais a'ch addasrwydd o ran manyleb y person sydd dan sylw.

**Ein bwriad yw cynnal cyfweliad ddydd Iau 3 ydd Gorffennaf yng Nghasnewydd.**

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda'r dyddiadau hyn neu os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol pellach arnoch fel rhan o'r broses, yna cysylltwch â Luke Robért.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

© Acorn by Synergie